

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memoranda Rhif 3 a Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Ionawr 2023



1. Y cefndir

Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2022. Caiff ei noddi gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi mai diben y Bil yw:

"to make provision about the regulation of social housing; about the terms of approved schemes for the investigation of housing complaints; and for connected purposes."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Hydref 2022. Daeth Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 29 Tachwedd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r dyddiad ar gyfer Cyfnod yr Adroddiadau a'r Trydydd Darlleniad wedi'i gyhoeddi eto.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 18 Awst 2022, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.²

6. Ar 5 Hydref 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd yn dilyn ei ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi.³

¹ Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 21)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Awst 2022

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Hydref 2022

- 7.** Adroddwyd ar y Memoranda hyn ar 22 Tachwedd 2022.⁴
- 8.** Mae paragraffau 10 i 16 a 19 i 22 o'r adroddiad hwnnw yn nodi'r cymalau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, adeg hynny, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle roedd anghytundeb yn codi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- 9.** Mae paragraffau 17 a 23 o'r adroddiad hwnnw yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

- 10.** Ar 17 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd⁵ (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod Cyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- 11.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Rhif 3 erbyn 13 Ionawr 2023.⁶

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2

- 12.** Mae paragraffau 3, 16 a 17 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol cynharach.
- 13.** Ar ôl gosod Memorandwm Rhif 2, cyflwynodd Llywodraeth y DU 32 o welliannau pellach i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi a chefnogodd un gwelliant anllwyodraethol. Derbyniwyd y gwelliannau hyn. Yn ogystal, derbyniwyd gwelliant anllwyodraethol pellach na chafodd gefnogaeth Llywodraeth y DU. Mae pob un o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁷

⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022

⁶ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 3

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

14. Mae paragraffau 18 i 34 a 39 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

15. Mae'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn ymwneud â'r darpariaethau hyn yn y Bil:

- cymal 1 (Amcanion sylfaenol);
- cymal 7 (cymal 6 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Meini prawf cofrestru);
- cymal 15 (cymal 14 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Gofynion hysbysu: estyn i sefydliadau sy'n gwneud elw);
- cymal 16 (Cymal newydd – Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestredig: parhad cofrestriad);
- cymal 17 (Cymal newydd – Ailstrwythuro cymdeithasau cofrestredig: cofrestru cyrff olynol);
- cymal 18 (cymal 15 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Trosglwyddo ymrwymadau o gymdeithas gofrestredig);
- cymal 21 (Cymal newydd – Safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad);
- cymal 22 (cymal 17 fel y'i cyflwynwyd a chymal 19 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Safonau'n ymwneud â gwybodaeth a thryloywder);
- cymal 24 (Cymal newydd – Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni);
- cymal 25 (cymal 19 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol);
- cymal 27 (cymal 21 fel y'i cyflwynwyd a chymal 23 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Monitro perfformiad);
- cymal 28 (cymal 22 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Arolygon)
- cymal 29 (Cymal newydd – Cynllun Arolygu);
- cymal 30 (cymal 23 fel y'i cyflwynwyd a chymal 25 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Cynlluniau gwella perfformiad);

- cymal 31 (cymal 24 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Camau unioni brys);
- Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 48 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

Casgliadau Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 3

16. Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i holl denantiaid darparwyr cofrestredig o Loegr, gan gynnwys y tenantiaid hynny sy'n byw mewn eiddo yng Nghymru y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt, ac felly rwy'n parhau'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU."*⁸

17. Mae Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau ymhellach farn y Gweinidog y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi.⁹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

18. Ar 6 Rhagfyr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd¹⁰ (Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod Cyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi, a ddigwyddodd ar 29 Tachwedd.

19. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Rhif 4 erbyn 13 Ionawr 2023.¹¹

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 37. Gweler hefyd baragraff 40.

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 41

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Rhagfyr 2022

¹¹ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Rhagfyr 2022

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3

- 20.** Mae paragraffau 3, 17 a 18 o Femorandwm Rhif 4 yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3.
- 21.** Cyflwynodd Llywodraeth y DU 11 o welliannau pellach i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin sy'n gwneud darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹²

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

- 22.** Ym mharagraff 17 a 18 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn nodi:

"Ysgrifennodd y Farwnes Scott o Bybrook, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymunedau, ataf ar 21 Tachwedd i dynnu fy sylw at y ffaith fod disgwyl i welliannau gael eu cyflwyno i ddileu gwelliant strategaeth effeithlonrwydd ynni Tŷ'r Arglwyddi, i egluro'r amgylchiadau lle y byddai caniatâd i berson a awdurdoddir gan y rheoleiddiwr adael cyfarpar ar fangre yn ystod arolygon neu gamau unioni brys, ac i ddileu darpariaeth benodol ar godi ffioedd am arolygiadau. Mae ei llythyr yn cadarnhau dadansoddiad Llywodraeth y DU bod y gwelliannau hyn yn 'rhychwantu Cymru a Lloegr ac yn gymwys iddynt, ac yn rhoi cychwyn i'r broses [cydsyniad deddfwriaethol] gan fod tai yn faes cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.'

Yn ei llythyr, aeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau ati hefyd i dynnu fy sylw at newid ym marn Llywodraeth y DU ynghylch ei dadansoddiad o ran datganoli o gymal 11 (Safonau diogelwch trydanol), ac i nodi ymhle mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o ran datganoli mewn meysydd eraill o'r Bil yn wahanol i'm dadansoddiad innau."

- 23.** Mae paragraffau 19 i 22 o Femorandwm Rhif 4 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.
- 24.** Mae'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn ymwneud â'r darpariaethau hyn yn y Bil:
- cymal 4 (Pŵer i godi ffioedd);

¹² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 3

- cymal 24 (cymal wedi'i ychwanegu i'r Bil yng Nghyfnod Adroddiadau Tŷ'r Arglwyddi – Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni): mae'r cymal hwn wedi'i ddileu o'r Bil;
- cymal 27 (cymal 22 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Arolygon);
- cymal 30 (cymal 24 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd – Camau unioni brys).

25. Ym mharagraffau 24 a 25 o Femorandwm Rhif 4 mae'r Gweinidog yn amlinellu bod Llywodraeth y DU wedi diwygio ei safbwynt o ran cymal 11 o'r Bil.

26. Nid yw Llywodraeth y DU bellach yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd oherwydd ei bod yn credu nad yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i Gymru gan fod y newid y Bil i'r ddarpariaeth hon ond yn effeithio ar dai yn Lloegr, yn ôl Llywodraeth y DU.¹³

27. Ym mharagraff 25 o Femorandwm Rhif 4 mae'r Gweinidog yn datgan ei bod yn cytuno â barn ddiwygiedig Llywodraeth y DU a'i bod felly'n dymuno diwygio ei safbwynt o ran cydsyniad, y mae'n credu nad oes ei angen mwyach mewn perthynas â chymal 11.

28. Ym mharagraffau 26 i 29 mae'r Gweinidog yn nodi eto nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 13 (Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) a 14 (Ansolfedd darparwyr cofrestredig), Rhan 1 o Atodlen 1 (Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig: Diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016), Atodlen 2 (Diwygiadau i gyfyngiadau ar weithdrefnau ansolfedd), a chymal 41 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol).

29. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau yng nghymalau 13 a 14 o'r Bil a Rhan 1 o Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Bil yn ymwneud â mater ansolfedd a gadwyd yn ôl ac, fel y cyfryw, nad oes angen cydsyniad y Senedd arnynt.¹⁴

30. Ym mharagraff 27 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn cadarnhau ei bod yn anghytuno â'r farn hon ac mae'n credu y dylid dal i geisio a rhoi cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.

31. Ym mharagraff 28 o Femorandwm Rhif 4 mae'r Gweinidog yn amlinellu safbwynt Llywodraeth y DU o ran cymal 41 o'r Bil, sef nad oes angen cydsyniad, ac mae'r Gweinidog yn dyfynnu'r rhesymeg a roddwyd gan Lywodraeth y DU, fel a ganlyn:

"gan nad yw'r ddarpariaeth ei hun yn ddarpariaeth o sylwedd a chan fod cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei geisio ar gyfer y darpariaethau o

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 24

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

sylwedd yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig ac y gellid defnyddio'r pŵer yng nghymal 41 mewn cysylltiad â hwynt."

32. Nid yw'r Gweinidog yn cytuno ac mae'n parhau i gredu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn, ac y dylai'r Senedd roi cydsyniad.¹⁵

Casgliadau Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 4

33. Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

"...rwyf o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a gynigir i gymalau 4, 28 a 31¹⁶ gan fod y newidiadau hyn i gyd yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparwr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru). Gofynnaf hefyd i'r Senedd nodi'r bwriad i gael gwared ar gymal 24 ac felly ni fydd angen cydsyniad y Senedd bellach ar gyfer y cymal hwn.

Yn ogystal, ymhellach i'r esboniad a nodir ym mharagraffau 24 a 25 uchod, hoffwn ddiwygio fy argymhelliad a wnaed yn yr LCM bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 11 (Safonau diogelwch trydanol).

Fel y nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol rwyf wedi'i osod ar y Bil hwn hyd yma, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. At hynny, mae'r cynigion yn y Bil yn ei gyfanrwydd, a hefyd yng ngwelliannau perthnasol Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru, gan eu bod yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ym maes tai cymdeithasol drwy gryfhau hawliau tenantiaid ac ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad."¹⁷

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 29

¹⁶ Mae cyfeiriadau yma at gymalau 28 a 31 yn gyfeiriadau at gymalau 27 a 30 ym mharagraff 24 o'r adroddiad hwn.

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraffau 33 i 35

34. Mae Memorandwm Rhif 4 yn cadarnhau ymhellach farn y Gweinidog y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.¹⁸

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 36

2. Trafodaeth y Pwyllgor

35. Trafodwyd Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2022.¹⁹ Trafodwyd Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 9 Ionawr 2023.²⁰

36. O ystyried cynnig Llywodraeth Cymru i gynnal dadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil ar 17 Ionawr 2023, a chan ystyried y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, cytunwyd hefyd ar ein hadroddiad ar 9 Ionawr 2023.

Ein barn ni

37. Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi i'r canlynol:

- cymalau 1, 7 (cymal 6 yn wreiddiol), 15 (cymal 14 yn wreiddiol), 18 (cymal 15 yn wreiddiol), 22 (cymal 17 yn wreiddiol), 25 (cymal 19 yn wreiddiol), 27 (cymal 21 yn wreiddiol), 28 (cymal 22 yn wreiddiol), 30 (cymal 23 yn wreiddiol), 31 (cymal 24 yn wreiddiol), ac Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 48);
- cymalau newydd 16, 17, 21, 24, a 29.

38. Nodwn hefyd fod Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i gymalau 4, 27 (cymal 22 yn wreiddiol), a 30 (cymal 24 yn wreiddiol) o'r Bil gan Dŷ'r Cyffredin, a hefyd cael gwared ar gymal 24 newydd a ychwanegwyd at y Bil gan Dŷ'r Arglwyddi.

39. At hynny, rydym yn nodi, yn dilyn dadansoddiad pellach o ddarpariaethau'r Bil a'u heffaith ar gymhwysedd datganoledig, fod Llywodraeth y DU wedi diwygio ei safbwynt ac nid yw bellach yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 11 o'r Bil. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn cytuno â'r safbwynt newydd hwn.

40. Rydym hefyd yn cydnabod bod y Gweinidog yn parhau i anghytuno â safbwynt Llywodraeth y DU o ran cymal 13, cymal 14, Rhan 1 o Atodlen 1, Atodlen 2, a chymal 41.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod yr holl gymalau ac Atodlenni a restrir yn y Memoranda yn dod o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022

²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Ionawr 2023

- 41.** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, adroddwyd ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar 22 Tachwedd 2022. Ar 6 Rhagfyr, ysgrifennodd y Gweinidog atom i gydnabod ein hadroddiad cyntaf, ac i dynnu ein sylw at osod Memorandwm Rhif 4.²¹
- 42.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom sylwadau ar amseru gosod y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd ac, yng nghasgliad 2, atgoffwyd Gweinidogion Cymru o bwysigrwydd darparu gwybodaeth amserol i Aelodau'r Senedd, er mwyn peidio ag ychwanegu at y diffygion democrataidd a achosir gan Filiau'r DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig a'r broses gydsynio gysylltiedig.
- 43.** Yn ei llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn cydnabod "pwysigrwydd rôl y Senedd o ran craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol" ac ymddiheurodd am yr "anghyfleustra a achoswyd i'r Pwyllgorau craffu pan na fu hyn yn bosibl". Nododd y Gweinidog fod Memorandwm Rhif 4 wedi'i osod yn unol â'r "terfyn amser arferol".²²
- 44.** Rydym yn cydnabod bod Memorandwm Rhif 4 wedi'i osod gerbron y Senedd o fewn 14 diwrnod i gyflwyno'r gwelliannau perthnasol gerbron Senedd y DU. Mae hyn i'w groesawu.

²¹ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Rhagfyr 2022

²² [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Rhagfyr 2022
